

Pwyllgor Rhanbarth y De-Orllewin

Cofnodion (SWaWR (2)-02-06)

Dyddiad: Dydd Gwener 9 Mehefin 2006

Amser: 9:30am i 12:30pm

Lleoliad: Neuadd Gymunedol Newydd, Gwaun Cae Gurwen, Rhydaman

Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Aelod Cynulliad	Etholaeth
Peter Black	Gorllewin De Cymru
Andrew Davies	Gorllewin Abertawe
Janet Davies	Gorllewin De Cymru
Janice Gregory(Cadeirydd)	Ogwr
Brian Gibbons	Aberafan
Carwyn Jones	Pen-y-bont ar Ogwr
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Gwenda Thomas	Castell-nedd

Yn Bresennol

Enw	Yn Cynrychioli (os yw'n gymwys)
Dan McCallum	Awel Aman Tawe
Mark Thomas	Celtic Energy Cyf.
Dr Mike Gandy	Celtic Energy Cyf.
Roy Jones	Cyfeillion y Ddaear, Abertawe

Kevin Mowbray	Canolfan Ymchwil Ynni Cymru
---------------	-----------------------------

Gwasanaeth y Pwyllgorau yn Bresennol

Enw	Teitl Swydd
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Sara Mansour	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan:

Aelod Cynulliad	Etholaeth
Alun Cairns	Gorllewin De Cymru
Edwina Hart	Gwyr

Eitem 1: Croeso a chyflwyniad.

1.1 Estynnodd y Clerc groeso i Aelodau'r Pwyllgor, y cyflwynwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Eitem 2: Ethol Cadeirydd

2.1 Mae'n arfer gan y Pwyllgor i ethol Cadeirydd newydd yn y cyfarfod cyntaf ar ôl toriad y Pasg. Gwahoddwyd enwebiadau gan Glerc y Pwyllgor. Enwebwyd Janice Gregory gan Val Lloyd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac etholwyd Janice Gregory.

2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

Eitem 3: Ynni.

3.1 Gwnaeth Dan McCallum gyflwyniad ar ran Awel Aman Tawe. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Mae Awel Aman Tawe yn elusen fenter gymdeithasol gydag 8 aelod o staff;
- mae wedi ennill nifer o wobrau ac mae'n canolbwyntio ar waith sydd o fudd i bobl leol;
- ar hyn o bryd, mae nifer o brosiectau ynni lleol;
- er y rhoddwyd arian i'r prosiectau, mae angen arian ar gyfer staffio;
- dylai Cymru ddysgu gwersi gan wledydd fel Denmarc a'r Almaen wrth hyrwyddo ynni gwynt drwy gynlluniau sydd o fudd uniongyrchol i'r gymuned lle y lleolir y tyrbinau;

- ffermydd ar y tir yw'r ffordd ymlaen ond mae angen consensws gwleidyddol cryfach yn lleol;
- byddai'n cefnogi ffermydd gwynt fel ffynhonnell ynni o flaen gorsafoedd pŵer niwclear a Morglawdd yr Afon Hafren.

3.2 Gwnaeth Mark Thomas gyflwyniad ar ran Celtic Energy Cyf. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- amlygodd bwysigrwydd glo i economi De Cymru ac esboniodd hanes Celtic Energy;
- mae'n rhaid i ynni gael ei gynhyrchu'n ddiogel, yn ddibynadwy ac ar gyfradd fforddiadwy;
- dylid ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl;
- dylid edrych ar reolaeth allyriannau yn y DU mewn gorsafoedd pŵer glo mewn cyd-destun bydeang - gallai ymdrech orfrwdfrydig dan gamargraff effeithio ar ein gallu i gystadlu'n fasnachol yn yr hirdymor;
- mae'r sector generadu glo yn ymrwymedig i ddadswlffwreiddio nwy ffliw fel ffordd o reoli'r effaith amgylcheddol bosibl;
- er mwyn i hyn barhau mae angen cyflenwad o lo a gynhyrchir yn y DU o byllau dwfn ac wyneb;
- mae polisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar bum maes sydd yr un mor bwysig â'i gilydd: effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, seilwaith ynni, annog cynhyrchu trydan o orsafoedd pŵer glo glân newydd a lleihau allyriannau carbon deuocsid;
- dylai'r Cynulliad gefnogi'r diwydiant ynni cynhenid, mae'r DU wedi'i bendithio ag adnoddau glo helath ac nid oes cyfiawnhad dros osod rhagor o reolau ar gloddio glo;
- cyfyngiadau cynllunio yn aml yw'r rhwystr mwyaf i'r diwydiant glo;
- os cytunir bod angen glo fel ffynhonnell o ynni yna gallai'r DU ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd ac iechyd y gweithwyr ac sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol;
- ar ôl echdynnu glo caiff y safle ei adfer;
- nid yw'r diwydiant cyflenwi glo yn cynhyrchu CO₂, heblaw am allyriannau o beiriannau a ddefnyddir yn y broses echdynnu. Fodd bynnag, dylid rheoli allyriannau o'r fath ac mae gwneuthurwyr peiriannau yn gweithio'n gyson tuag at leihau allyriannau.
- mae'n rhaid datblygu technoleg i ddod o hyd i weithdrefn lle y caiff glo ei losgi mewn ffordd fwy effeithlon fel y caiff allyriannau CO₂ eu lleihau;
- mae'n rhaid i'r Llywodraeth barhau i gefnogi ymchwil i ddod o hyd i ffordd fwy effeithlon o losgi glo;
- amrywiaeth yw hanfod economi lwyddiannus.

3.3 Cafwyd ymatebion fel a ganlyn gan y Cyflwynwyr i gwestiynau'r Aelodau.

Mark Thomas:

- Mae cloddio glo brig yn gynaliadwy ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar iechyd. Mae'n ddewis amgen gwell i fewnforio glo o'r trydydd byd. Mae angen edrych ar bob mater arall, nid yw cloddio glo brig yn wahanol i unrhyw ddatblygiad arall, mae'n rhan bwysig o gynhyrchu ynni;
- er y byddai marchnad ar gyfer y glo, nid yw cloddio dwfn yn Ne Cymru yn ddichonadwy o ganlyniad i ffactorau daearegol a cholli arbenigedd.

- Mae Glo Prydain a Celtic Energy wedi buddsoddi mewn prosiectau cymunedol yn y gorffennol;
- Wrth ymateb i awgrym gan Gwenda Thomas AC y dylai unrhyw gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer cloddio glo brig gynnwys asesiad o'r effaith y datblygiad ar y gymuned a'i fudd i'r gymuned, dywedodd nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r syniad. Fodd bynnag, dylai'r gofyniad fod yn gymwys i ddatblygiadau diwydiannol eraill, nid cloddio glo brig yn unig.

Dan McCallum:

- mae buddiannau cymunedol ffermydd gwynt yn cynnyws:
- ariannu prosiectau adnewyddadwy bach iawn;
- datblygwyr ffermydd gwynt yn cefnogi ymddiredolaeth ynni gymunedol;
- sefydlu parneriaethau ar y cyd, er enghraifft y Ffatri Gelf yn y Rhondda;
- cododd cynllun ynni cymunedol yn Swydd Rydychen £4 miliwn drwy gyhoeddi cyfranddaliadau a dyfynnodd enghreifftiau mewn manau eraill o gynlluniau llwyddiannus yn y gymuned;
- o ganlyniad i'r ymwybyddiaeth o broblemau cynhesu byd-eang, mae Awel Aman Tawe yn cael ei orlethu â phrosiectau;
- nid oes angen i gynlluniau cymunedol fod yn fach, ond mae angen cefnogaeth leol arnynt;
- mae'n rhaid i ni fod yn agored i dechnoleg newydd;
- mae angen cymysgedd ynni, nid ynni gwynt yw'r unig ateb;
- ar hyn o bryd, y targed yw 20%, ond rydym yn bell iawn o gyrraedd hwn;
- mae tir, fel planhigfeydd conniffer ar hen dir cloddio, ar gael i adeiladu ffermydd gwynt;
- dylid gwneud paneli solar yn ofyniad ar gyfer tai newydd;
- profwyd bod ffermydd gwynt o fudd ariannol.

3.4 Gwnaeth Roy Jones gyflwyniad ar ran Cyfeillion y Ddaear, Abertawe. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- ynni yw un o'r problemau mwyaf y mae llywodraethau yn eu hwynebu oherwydd mae tanwyddau ffosil yn rhedeg allan ac mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth ein hiechyd, ein diogelwch a'n ffyniant;
- mae'n hanfodol ein bod yn symud oddi wrth ffynonellau sy'n rhyddhau CO2 fel glo, olew a nwy oherwydd y byddai'r canlyniadau yn drychinebus;
- mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi rhagor o gymorth i systemau ynni adnewyddadwy a mesurau arbed ynni;
- dylid sefydlu rhaglenni ymwybyddiaeth i sicrhau bod camau arbed ynni domestig a diwydiannol yn cael eu gweithredu;
- dylid annog deiliaid tai i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon;
- dylai pob ty newydd gael paneli solar wedi'u gosod ar gyfer gwresogi dwr poeth a / neu oer;
- byddai'n cefnogi cynnwys dyfeisiau cynhyrchu trydan gwres a phwer cyfun bach ac adnewyddadwy mewn rheoliadau ar gyfer adeiladu tai;
- mae'n cefnogi generaduron gwynt gan fod swm yr ynni a gynhyrchir dros oes pob generadur yn trechu unrhyw effeithiau negyddol;

- mae'n cefnogi'r cynigion i archwilio'r potensial ar gyfer technolegau morol, tonnau a llanw yng Nghymru;
- dylid gwrthod cysyniad morglawdd yr afon Hafren gan y byddai'n dinistrio amgylchedd naturiol unigryw;
- ni ddylid adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yng Nghymru gan fod y risgiau'n fwy na'r manteision;
- mae yna amrywiaeth o ddewisiadau amgen diogelach, gwyrddach a glanach i orsafoedd pŵer niwclear;
- mae'n gwrthwynebu cloddo llain glo brig;
- gellir ymchwilio i ddal a storio glo glân a charbon ond mae risgiau ynghlwm;
- nododd fod injans cerbydau yn aneffeithlon iawn ac yn ffynhonnell enfawr o allyriadau CO₂;
- mae newidiadau i bolisi yn hanfodol i osgoi problemau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.

3.5 Gwnaeth Kevin Mowbray gyflwyniad ar ran Canolfan Ymchwil Ynni Cymru. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- mae Canolfan Ymchwil Ynni Cymru yn gorff cydweithredol a ffurfiwyd gan ymchwilwyr o bob un o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a chyrrff ymchwil annibynnol eraill;
- nodau'r Ganolfan yw:
- annog ymchwil, datblygu a throsglwyddo technoleg gydweithredol a rhyngddisgyblaethol;
- cynyddu buddsoddiad ymchwil a datblygu yng Nghymru o ffynonellau allanol fel Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd;
- darparu cyngor awdurdodol annibynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'i Pholisi Ynni a materion cysylltiedig;
- cynorthwyo economi Cymru i leihau'r rhwystrau i gyflenwi cynnyrch i'r farchnad;
- cael ei chydabod gan ganolfannau rhagoriaeth rhyngwladol eraill, a rhyngweithio â hwy;
- er mwyn cadw'r un ffordd o fyw a fwynhawn yn awr, (gan gynnwys trafndiaeth) mae angen i Gymru gynhyrchu 16,500 GWh bob blwyddyn;
- ar gyfer holl anghenion ynni Cymru, mae angen cynhyrchu mwy na 9.5 miliwn tunnell o olew bob blwyddyn;
- gallai gosod celloedd ffotofoltäig ar gyfer trydan a phaneli solar ar doeon tai leihau chwarter y treuliant o drydan ac allyriannau carbon cysylltiedig;
- dylai Cymru edrych ar adeiladu diwydiant newydd mewn ynni adnewyddadwy a chynaliadwy;
- bydd sylfaen ymchwil a gwyddoniaeth gref yng Nghymru yn denu diwydiant i Gymru;
- bydd y Ganolfan yn dechrau sawl prosiect ar ymchwil ynni, mewn partneriaeth â'r prifysgolion a'r cwmnïau diwydiannol;
- mae gan y Ganolfan bron i £4 miliwn i'w wario ar y prosiectau hyn;
- bydd y Ganolfan yn ystyried cynyddu'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol yr UE i gynnal prosiect ynni yn y dyfodol
- mae potensial yn y De-Orllewin i ddatblygu technoleg ynni newydd a gwell;
- mae paneli ffotofoltäig mwy effeithlon a rhatach ar gyfer adeiladau yn cael eu datblygu;
- ar hyn o bryd mae prosiectau ym Mhrifysgol Abertawe yn datblygu electroneg pŵer, tyrbinau cerrynt morol a biodanwyddau;

- mae gweithgarwch ymchwil cynyddol ar droed a nododd nifer o'r prosiectau sy'n cael eu cynnal ledled Cymru;
- mae newid ar ddigwydd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod hyn ac yn defnyddio ei hadnoddau prin i annog cwmnïau newydd a phresennol i achub ar y cyfleoedd a ddaw newid yn sgîl.

3.6 Cafwyd ymatebion fel a ganlyn gan y Cyflwynwyr i gwestiynau'r Aelodau.

Roy Jones

- mae ffynonellau amgen o ynni yn cael eu datblygu oddi ar arfordir Dyfnaint a dylent fod yn cynhyrchu trydan o fewn 3 blynedd;
- bydd yn cymryd 4 i 5 mlynedd i weld manteisio y gwaith hwn;
- dylid dod â swyddogaethau segur ar setiau teledu i ben yn raddol.

Kevin Mowbray

- nid yw paneli ffotofoltäig mor gost-effeithiol â phaneli solar syml ar gyfer deiliaid tai;
- mae angen hyblygrwydd, a meddwl agored am dechnoleg newydd;
- mae angen ymgyrch i annog pobl i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon;
- mae moduron trydanol mewn peiriannau yn y cartref yn defnyddio rhwng 20 a 30% o drydan domestig;
- gallai gwneuthurwyr ddatblygu peiriannau domestig mwy effeithlon ond mae hyn yn costio arian;
- mae Prifysgol Abertawe ynghlwm wrth ymchwilio a datblygu technoleg mwy effeithlon ar gyfer nwyddau a pheiriannau trydanol.

3.7 Gwnaeth Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, y pwyntiau canlynol:

- barn y Llywodraeth yw bod yn rhaid defnyddio cymysgedd o dechnoleg i gynhyrchu ynni, gyda defnydd mwy effeithlon o nwy a hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy;
- bach yw'r cymhelliad ar gyfer gwell effeithlonrwydd ynni;
- dylid cael ffordd fwy effeithlon o ddefnyddio glo ac olew;
- gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Lywodraeth y DU ystyried effaith Morglawdd Afon Hafren o ddifrif cyn cymeradwyo cynigion;
- nid oed gan bwer niwclear ddyfodol yng Nghymru, gan nad yw rheoli gwastraff niwclear wedi'i ddatrys;
- hefyd, ni fyddai datblygu ynni niwclear yn ddichonadwy heb gymhorthdal a fyddai'n ystumio'r farchnad;
- ni fyddai'r genhedlaeth hon yn teimlo effeithiau cynhesu byd-eang i'r un graddau ag y byddai'r genhedlaeth nesaf ac felly ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau y cyfyngir ar yr effeithiau

hynny.

Eitem 4: Llwyfan Agored

4.1 Gofynnodd y Cyng Edward Page, sy'n Gynghorydd Cymunedol lleol, pam bod Arolygwyr Cynllunio yn atebol i'r Gweinidog. Ymatebodd Carwyn Jones AC (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad) drwy ddweud mai'r Arolygydd Cynllunio sy'n cymryd y penderfyniad terfynol, nid y Pwyllgor na'r Gweinidog.

4.2 Cyflwynodd Cyng Morlais Thomas, o Gyngor Tref Gorseinon, ei bryderon am gwmnïau cloddio glo brig sy'n ceisio gwella eu gweithgareddau drwy gynnig rhoddion i'r gymuned leol. Dywedodd Brian Gibbons AC nad oedd yn afresymol i'r gymuned dderbyn buddiannau o'r fath.

4.3 Gofynnodd Meirion Bowen, sy'n Gynghorydd Cymunedol, a oedd yn briodol i'r Pwyllgor dderbyn cyflwyniad gan sefydliad sydd ag apêl gynllunio bresennol. Cynghorodd y Cadeirydd nad oedd y cyflwyniadau wedi sôn am unrhyw geisiadau cynllunio presennol, ac nad oeddent wedi'u trafod o gwbl.

4.4 Gofynnodd Rhys Madoc, aelod o Awel Aman Tawe, am orfodi amodau cynllunio ar gyfer adfer safleoedd cloddio glo brig. Dywedodd Carwyn Jones AC, pan breifateiddiwyd glo, nid oedd digon o ystyriaeth tuag at adfer. Yr awdurdod lleol, a'r Cynulliad Cenedlaethol yn y pen draw, sy'n gyfrifol am sicrhau camau adfer.

4.5 Mynegodd Meirion Bowen bryder am y biblinell ynni o Aberdaugleddau i Aberddulais a gofynnodd Ms Linda Ware, ysgrifenyddes Cymdeithas Trigolion Cilfrew, pan nad oedd unrhyw beth wedi'i wneud am les y bobl y mae hyn yn effeithio arnynt. Ymatebodd Carwyn Jones AC trwy ddweud bod budd cymunedol yn ystyriaeth fel rhan o'r broses gwneud cais cynllunio. Ni allai gynnig barn ar achos penodol gan ei fod yn cadeirio'r Pwyllgor o Aelodau'r Cynulliad sy'n gwneud penderfyniad pan y gelwir cais cynllunio i mewn gan y Cynulliad.

4.6 Dywedodd Linda Ware fod cam 1 y biblinell wedi'i gymeradwyo gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn Llundain a gofynnodd pan nad oedd unrhyw iawndal i'r rheini y mae'r gwaith wedi effeithio arnynt. Cytunodd Andrew Davies AC fod peth aflonyddwch wedi bod yn lleol yn Sir Benfro oherwydd traffig adeiladu. Fodd bynnag, byddai'r gymuned yn cael budd o'r cyflenwad newydd. Mae galw am ynni yn cynyddu'n gyson.

4.7 Dywedodd Mr Jim Dunkley o Orseinion fod prosiect y biblinell yn syndod a gofynnodd a oedd unrhyw brosiectau cudd eraill yn cael eu cynnal. Dywedodd hefyd mai dyma'r prosiect mwyaf yng Nghymru ers blynyddoedd a p'un a yw'r materion diogelwch wedi'u hystyried. Dywedodd Andrew Davies AC nad oedd unrhyw brosiectau cudd a bod y biblinell gan y Grid Cenedlaethol wedi bod yn eiddo i'r cyhoedd ers blynyddoedd. Ymgynghorwyd ag Awdurdodau Lleol a daethant i gymryd rhan.

Dywedodd Dai Lloyd AC fod y derfynfa a'r biblinell wedi cael caniatâd cynllunio gan Lywodraeth y

DU, ni ddatganolwyd y penderfyniad. Byddai'r DU i gyd yn cael budd o'r gwaith a dylai fod angen i Transco dalu iawndal i'r rheini yng Nghymru sy'n dioddef yn sgîl y gwaith adeiladu.

4.8 Dywedodd Ken Maddocks o Awel Aman Tawe fod y sefydliad wedi colli swyddog prosiect da, tynnwyd arian Ewropeaidd yn ôl a'i fod yn colli momentwm. Dywedodd Andrew Davies AC y byddai rhagor o arian Ewropeaidd ar gael y flwyddyn nesaf ond ategodd mai cyfyngedig yw pwerau Cynulliad Cymru gan nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

4.9 Gofynnodd Mr Terry Scales o Swansea Line Forum gwestiwn am y safonau tai presennol. Cytunodd Andrew Davies AC fod llawer o dai yn anaddas. Mae wrthi'n gweithio gydag Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a Jane Dvidson AC, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar wella'r safonau. Dywedodd hefyd ei fod yn anos gwneud hen adeiladau yn ynni effeithlon.

4.10 Dywedodd y Cadeirydd y bydd safonau newydd ar waith ar gyfer tai cyhoeddus yn 2012.

Camau i'w cymryd:

Caiff cofnodion y cyfarfod eu hanfon at Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

Eitem 5: Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai 20 Hydref fydd dyddiad y cyfarfod nesaf ac y byddai'r lleoliad yn Abertawe. Mae Trais yn y Cartref wedi'i awgrymu fel pwnc, ond gallai Aelodau awgrymu pynciau eraill drwy'r Clerc.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd yn y Neuadd Gymunedol.

Gwasanaeth y Pwyllgor Mehefin 2006